



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad yn dilyn monitro
Lefel y dilyniant: Gwelliant â ffocws**

**Cylch Meithrin Pontyberem
Neuadd Goffa
Heol Nant y Glo
Pontyberem
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5HU**

Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Meithrin Pontyberem wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Rhagfyr 2018.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r lleoliad o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Argymhelliad 1: Gwella medrau Cymraeg plant

Mae llawer o'r plant yn datblygu eu medrau Cymraeg yn gadarn gan wrando'n astud a dilyn cyfarwyddiadau'n gywir. Maent yn dechrau defnyddio geirfa ac ymadroddion cyfarwydd yn eu chwarae gydag anogaeth oedolion, er enghraifft wrth lapio arhegion Nadolig yng ngweithdy Siôn Corn. Mae llawer yn ymuno yn frwdfrydig yn y canu ac yn cael llawer o hwyl wrth gywiro camgymeriadau pwrpasol yr oedolion, er enghraifft wrth ganu 'Mi Welais Jac y Do'.

Maent yn cyfathrebu yn y Gymraeg yn dda gydag oedolion, er enghraifft wrth drafod a chyfateb cardiau Nadoligaidd a'u gosod yn y llefydd cywir ar y gwahanol fatiau. Mae'r oedolion yn annog y plant i siarad Cymraeg yn effeithiol wrth gynnal sgysiau gyda nhw ac wrth ddatblygu geirfa berthnasol, er enghraifft wrth addurno'r goeden Nadolig a thrin yr eira esgus.

Mae ymarferwyr yn modelu iaith safonol yn rheolaidd i'r plant, er enghraifft wrth gynorthwyo'r plant i ddisgrifio'r tywydd y tu allan. Maent yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i gywiro iaith y plant, er enghraifft wrth iddynt ateb cwestiynau.

Argymhelliad 2: Sicrhau bod y drefn ddyddiol yn creu cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion er mwyn herio plant ar y lefel briodol

Ers yr arolygiad craidd, mae athrawes gymorth yr awdurdod lleol wedi gweithio'n llwyddiannus gyda'r ymarferwyr er mwyn ailstrwythuro'r drefn ddyddiol. Maent bellach yn cynllunio'n fwy strategol i gyfoethogi'r ddarpariaeth trwy gynllunio tasgau ffocws heriol y tu fewn a thu allan i'r lleoliad. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd buddiol rhwng gweithgareddau o dan gyfarwyddyd oedolion a chyfleoedd i blant weithio'n fwy annibynnol. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd addas i wneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd perthnasol i'r plant atgyfnerthu eu dysgu blaenorol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol yn y gwahanol ardaloedd dysgu. Maent yn annog y plant i ymchwilio ac i ddarganfod drostynt eu hunain, er enghraifft wrth ddefnyddio 'canfyddydd metel' i chwilio am rifau ar glychau Nadolig wedi eu cuddio yn y twba eira esgus. Rhoddir cyfleoedd pwrpasol ac ymarferol i blant ddatblygu eu hannibyniaeth trwy gydol y sesiwn wrth hunangofrestru ac wrth weini bwyd a diodydd amser byrbryd, er enghraifft.

Argymhelliad 3: Gwella'r cynllunio i ddarparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn systematig ar draws y meysydd dysgu

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio fframwaith y cyfnod sylfaen yn effeithiol gyda chymorth yr athrawes ymgynghorol er mwyn adnabod medrau penodol i'w datblygu. Bellach, maent yn cynllunio profiadau mwy eang a systematig i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant ar draws y ddarpariaeth. Yn ogystal, mae'r lleoliad wedi cydweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol i fuddsoddi mewn adnoddau addysgol pwrpasol i gefnogi'r medrau hyn. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau wrth gynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu pwrpasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod o weithgareddau gwerthfawr i ddatblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu cynnar y plant. Er enghraifft, maent yn cynnwys cyfleoedd buddiol i annog y plant i greu marciau pwrpasol mewn sawl ardal ddysgu yn y lleoliad, er enghraifft i ymarfer rhoi enw ar garden Nadolig. O ganlyniad, mae mwy o blant yn awyddus i greu marciau ac yn dechrau deall pwrpas ysgrifennu i gyfathrebu'n briodol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu rhifedd plant ar draws y meysydd dysgu. Maent yn cynllunio amrywiaeth o gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o rif, siâp a mesur. Er enghraifft, mae rhif yr wythnos yn cael ei gyflwyno a'i atgyfnerthu'n effeithiol drwy weithgareddau gwahanol fel y pos 'agor y clo' gan ofyn i'r plant gyfateb rhif gyda nifer o wrthrychau. Erbyn hyn, mae cyfleoedd eang i'r plant ymarfer eu medrau rhif mewn sawl ardal wahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu rhifau cyfarwydd mewn cyfryngau gwahanol, cyfri gyda'i gilydd amser cofrestru a threfnu gwrthrychau yn yr ardal ddarganfod.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth addas o adnoddau TGCh, gan gynnwys teganau rhaglenadwy, meicroffonau a chamerau digidol, er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau TGCh y plant yn fuddiol yn ystod sesiynau. Mae cynlluniau'r ymarferwyr yn adeiladu'n addas ar brofiadau a dysgu blaenrol y plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn ymarfer cael y plant i symud yn ôl ac ymlaen gan ddilyn cyfarwyddiadau cyfarwydd cyn iddynt ddefnyddio teganau rhaglenadwy i gyflawni'r un symudiadau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh a medrau gwrando'r plant.

Argymhelliad 4: Codi disgwyliadau ymarferwyr o ddysgu'r plant, yn enwedig wrth holi plant yn effeithiol

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gydag athrawes gymorth yr awdurdod lleol er mwyn codi eu disgwyliadau o'r hyn mae'r plant yn medru ei gyflawni. Bellach, mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol sy'n herio'r plant yn eu dysgu ac yn datblygu eu medrau'n fedrus ar draws yr ardaloedd dysgu. Trwy werthuso effaith y tasgau ffocws a'r ddarpariaeth barhaus ar fedrau'r plant, maent yn dod i adnabod camau nesaf y plant yn eu dysgu yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant penodol ar ddefnyddio cwestiynau agored gyda'r plant er mwyn eu hannog i feddwl ac i ymestyn eu dealltwriaeth. Mae

ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant yn effeithiol o'r eiliad y maent yn cyrraedd y lleoliad, er enghraifft wrth gynnal sgwrs am liwiau ar ddilledyn plentyn. Maent yn holi cwestiynau pwrpasol, agored i'r plant ac yn gwrando'n dda ar yr ymatebion er mwyn holi'n ddyfnach pan fydd yn berthnasol. Maent hefyd yn holi'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth y plant yn ystod gweithgareddau ac wrth iddynt chwarae yn annibynnol, er enghraifft rolïo a siapio toes i ffurf Siôn Corn.

Argymhelliad 5: Gwella trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu i adnabod y blaenoriaethau pwysicaf a chynllunio'n effeithiol i'w gwella

Ers i'r arweinydd newydd ddechrau yn ei swydd, mae hi wedi gweithio'n agos gyda athrawes gymorth yr awdurdod lleol i gryfhau prosesau hunanwerthuso'r lleoliad yn bwrpasol. Bellach, mae'r gweithdrefnau hyn yn dod yn rhan o drefn ddyddiol y lleoliad ac mae'r arweinydd yn medru gweithredu yn fwy annibynnol wrth i'w hyder gynyddu.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y gweithdrefnau hunanwerthuso yn cynnwys yr holl staff ac yn ystyried barn rhieni, plant, asiantaethau allanol. Defnyddir yr adborth a'r cyngor hwn i weithredu strategaethau cadarn er mwyn arwain at welliannau. Enghraifft benodol o hyn yw'r ffordd mae'r ymarferwyr erbyn hyn yn rhannu'r plant yn grwpiau llai i gyflwyno rhaglen i godi safonau dealltwriaeth a medrau llafar Cymraeg y plant.

Mae'r arweinydd yn gwerthuso'r dysgu a'r addysgu gyda chefnogaeth, yn ôl yr angen. Mae hi'n defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o weithgareddau hunanwerthuso yn briodol i adnabod cryfderau'r lleoliad a meysydd ar gyfer gwelliant. Enghraifft benodol o hyn yw monitro effeithiolrwydd y cynllunio ar gyfer gwella safonau dysgu'r plant.

Mae'r arweinydd yn defnyddio canfyddiadau hunanwerthuso yn llwyddiannus i greu cynllun datblygu sydd yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r lleoliad yn targedu blaenoriaethau sydd yn dechrau arwain at welliannau a chael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant. Fodd bynnag, nid yw'r targedau hyn yn rhai y medrir eu mesur o ran cynnydd yn hawdd.

Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r lleoliad barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.